# Llywodraeth Cymru

## Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS)

Cwestiynau Cyffredin

V.1 Gorffennaf 2025

# Adran

**Trosolwg o'r rhaglen** ... 3
**Y broses ymgeisio** ... 5
**Costau a chyllid** ... 8
**Strwythur y rhaglen a sut y bydd yn cael ei chyflwyno** ... 9
**Gohirio, tynnu'n ôl a rhoi'r gorau i astudio** ... 10
**Oriau dysgu dan arweiniad** ... 11

Crëwyd y ddogfen hon gan Dîm Masnachol a Chaffael, Capasiti a Gallu Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflogwyr sector cyhoeddus Cymru, a darpar fyfyrwyr, i ddeall rhaglen Dyfarnu Corfforaethol CIPS a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Cysylltwch â GalluMasnachol@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

# Trosolwg o’r Rhaglen

## Beth yw Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS?

Mae Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS  yn fenter sy'n rhan o agenda Capasiti a Gallu Llywodraeth Cymru. Nod y rhaglen hon yw cynnig datblygiad proffesiynol wedi'i dargedu i staff sector cyhoeddus Cymru, wrth fynd i'r afael â heriau o ran capasiti ym mhob rhan o'r sector a gwella proffil maes caffael yng Nghymru. Mae gan y Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol ddwy lefel, sef Ymarferydd ac Ymarferydd Uwch. Cewch ddisgrifiad o bob lefel isod:

| | Ymarferydd | Ymarferydd Uwch |
|---|---|---|
| **Cynnwys** | Bydd y rhai sy'n astudio'r lefel hon yn ddatblygu dealltwriaeth gadarn o hanfodion caffael | Bydd y rhai sy'n astudio'r lefel hon yn meithrin sgiliau proffesiynoldeb er mwyn cynnig rhagor o werth sefydliadol a lleihau risg |
| **Lefel Dysgu** | Blwyddyn gyntaf gradd israddedig | Gradd Anrhydedd |
| **Hyd** | 9 mis | 14 mis |
| **Canlyniad** | Aelodaeth diploma | Aelod o'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (MCIPS) - eich trwydded broffesiynol |
| **Lefel Cymhwysedd Safonol Byd-eang** | Gweithredol | Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol |
| **Meini Prawf Mynediad CIPS** | Dim | Rhaid meddu ar Ddiploma CIPS neu gwblhau asesiad cymhwysedd ar y lefel ofynnol |

## Sut gallaf gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen Dyfarniad Corfforaethol?

Mae rhagor o wybodaeth am lefel Ymarferydd ac Ymarferydd Uwch rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS ar gael. Dilynwch y dolenni isod i bori drwy'r holl wybodaeth:

Ymarferydd: https://www.cips.org/employers/people/corporate-award

Ymarferydd Uwch: https://www.cips.org/employers/people/corporate-award

## Beth yw strwythur y rhaglen Dyfarniad Corfforaethol a sut gallaf gael rhagor o wybodaeth am strwythur y rhaglen?

Mae'r rhaglen yn defnyddio strwythur dysgu cymhwysol modiwlaidd, seiliedig ar waith sy'n galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ddod yn aelod MCIPS yn gyflym. Mae'r rhaglen yn cynnwys dwy lefel, Ymarferydd ac Ymarferydd Uwch, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei chyflwyno ar-lein trwy Microsoft Teams. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r rhai sy'n cymryd rhan gydbwyso eu hastudiaethau a'u hymrwymiadau eraill, a hynny drwy gynnig sesiynau dysgu wyneb yn wyneb o bell.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael amserlen lawn cyn ymuno â'r rhaglen.

Mae taflen gynnyrch gyda rhagor o wybodaeth ar gyfer rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS ar gael ar wefan CIPS. Cliciwch **yma** i gyrchu'r wefan.

## A fyddaf yn cael cymhwyster proffesiynol trwy gwblhau'r rhaglen CIPS lawn?

Mae rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS yn cynnig llwybr cymhwysol i ddod yn aelod MCIPS ac nid yw'n gymhwyster wedi'i reoleiddio. Sefyll arholiad yw'r unig ffordd o ennill y cymhwyster hwn.

# Y Broses Ymgeisio

## Sut a phryd y bydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu?

Mae rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS yn cael ei hysbysebu drwy sianeli cyfathrebu Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru. Dilynwch ein cylchlythyr a'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen. Gellir dod o hyd i ddolenni cofrestru isod:

- **Cylchlythyr:** Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr yma
- **X:** @ ProcureWales
- **LinkedIn:** Cyfarwyddiaeth Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n anelu at hysbysebu cyfleoedd rhaglenni a ariannir dros gyfnod yr haf ac agor y broses gais ffurfiol yn yr hydref. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael dyddiad dechrau yn ystod y gaeaf yn yr un flwyddyn gais.

## Beth yw'r broses ddethol?

Wrth gwblhau cais ar gyfer Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS, rhaid i ymgeiswyr adolygu'r fethodoleg sgorio.

**Cam 1: Sgorio'r cais**

Bydd pob cais yn cael ei adolygu a'i sgorio gan banel o weithwyr proffesiynol caffael masnachol gan ddefnyddio graddfa sgorio 1-7. Mae'r cam hwn yn asesu ansawdd a pherthnasedd yr ymatebion a roddir yn y ffurflen gais.

**Graddfa Sgorio**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn cael ei arddangos | Arddangosiad lleiaf | Arddangosiad cymedrol | Arddangosiad derbyniol | Arddangosiad da | Arddangosiad cryf | Arddangosiad rhagorol |
| Dim tystiolaeth gadarnhaol a/neu dystiolaeth negyddol sylweddol yn cael ei arddangos | Arddangos tystiolaeth gadarn gyfyngedig a/neu dystiolaeth negyddol yn bennaf | Arddangos tystiolaeth gadarnhaol gymedrol ond peth tystiolaeth negyddol | Arddangos tystiolaeth gadarnhaol ddigonol, ac ni fyddai unrhyw dystiolaeth negyddol yn peri pryder | Tystiolaeth gadarnhaol sylweddol o’r cymhwysedd neu’r ymddygiad | Tystiolaeth gadarnhaol sylweddol; yn cynnwys peth tystiolaeth sydd y tu hwnt i’r disgwyl ar y lefel hon | Mae’r dystiolaeth a ddarperir i gyd y tu hwnt i’r disgwyl ar y lefel hon |

**Trothwy cymhwysedd**

Rhaid i ymgeiswyr sgorio **o leiaf 5** ym mhob ymateb testun agored o'u cais i gael eu hystyried yn gymwys ar gyfer nawdd. Mae'r sgôr hon yn adlewyrchu tystiolaeth gadarnhaol sylweddol o alinio â nodau'r rhaglen ac addasrwydd ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeiswyr fod ag **o leiaf 12 mis o brofiad blaenorol** mewn rôl ym maes caffael sector cyhoeddus erbyn i'r rhaglen ddechrau.

Ni fyddwn yn cynnig unrhyw eglurhad na chyfle pellach i ymgeiswyr gryfhau eu cais.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am Lefel 4 (Ymarferydd) sydd â phrofiad sylweddol mewn rolau caffael masnachol neu sector cyhoeddus ymgymryd ag asesiad cymhwysedd. Gall cwblhau'r asesiad hwn yn llwyddiannus ganiatáu mynediad uniongyrchol i Lefel 5/6 (Ymarferydd Uwch).

Sylwer: Rhaid i gost yr asesiad cymhwysedd gael ei dalu gan gyflogwr yr ymgeisydd.

Ni ddarperir unrhyw eglurhad na chyfle pellach i ymgeiswyr gryfhau'r cais.

**Meini Prawf Sgorio**

1. **Cymhelliant ac Ymrwymiad:** Yn dangos cymhelliant personol cryf ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol.
2. **Perthnasedd i'r Rôl:** Yn dangos perthnasedd clir y rhaglen i gyfrifoldebau caffael cyfredol.
3. **Effaith Sefydliadol:** Yn esbonio sut y bydd yr hyfforddiant o fudd i'r sefydliad ac yn cyfrannu at nodau strategol.
4. **Cyfraniad at y Sector Cyhoeddus:** Yn tynnu sylw at sut y bydd yr hyn a ddysgir gan yr ymgeisydd yn cefnogi amcanion ehangach y sector cyhoeddus.
5. **Datblygu Sgiliau:** Yn nodi sgiliau penodol i'w datblygu a sut y byddant yn cael eu rhoi ar waith.
6. **Ansawdd yr Ymateb:** Eglurder, cydlyniant a grym perswâd cyffredinol y cais.
7. **Safonau Byd-eang CIPS:** Rhaid i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o'r canlyniadau dysgu ar y lefel berthnasol a rhoi hyn ar waith yn eu hymateb. I gael rhagor o arweiniad ar y gofynion sgiliau ar gyfer y lefel rhaglen hon, cyfeiriwch at faes llafur y rhaglen CIPS.

**Cam 2: Dyraniad Strategol**

Bydd y ceisiadau sy'n sgorio uchaf ac sy'n bodloni'r trothwy sgorio yn cael eu hystyried ar gyfer dyraniad terfynol yn seiliedig ar ffactorau strategol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg.

**Lledaeniad Sectorol a Daearyddol**

Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i sicrhau cynrychiolaeth gytbwys ar draws:

- Sefydliadau'r sector cyhoeddus;
- Swyddogaethau caffael

- Rhanbarthau daearyddol yng Nghymru

**Blaenoriaethu sefydliadol (trwy eithriad)**

Os yw sefydliad yn cyflwyno nifer uchel o geisiadau, efallai y gofynnir iddynt flaenoriaethu ymgeiswyr.

Mae hyn yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn osgoi gorgynrychiolaeth gan unrhyw sefydliad unigol.

## Mae fy sgiliau a'm profiad yn gweddu orau i'r rhaglen Lefel Ymarferydd Uwch. Beth ddylwn i ei wneud?

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw’r hawl i adolygu ceisiadau i raglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS ac, pan fo’n briodol, ailgyfeirio ymgeiswyr o Lefel 4 (Ymarferydd) er mwyn cynnal asesiad cymhwysedd i’r ymgeisydd gael y cyfle i astudio ar Lefel 5/6 (Ymarferydd Uwch) yn syth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ymgeiswyr sydd â phrofiad helaeth ym maes caffael sector cyhoeddus, lle ystyrir y gall eu gwybodaeth a'u gallu fod yn fwy na’r lefel Ymarferydd. Mewn achosion o'r fath, byddai'r asesiad cymhwysedd yn cael ei ariannu gan gyflogwr yr ymgeisydd. [Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth ar yr asesiad cymhwysedd].

## Beth yw'r meini prawf cymhwysedd y mae'n rhaid eu bodloni i gael cynnig lle ar y rhaglen?

- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi pasio unrhyw gyfnod prawf cymwys.
- Rhaid i ymgeiswyr fod ag o leiaf 12 mis o brofiad ym maes caffael sector cyhoeddus.
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn aelodau o weithlu caffael sector cyhoeddus Cymru.

## A fyddaf yn destun unrhyw amodau os ydw i'n derbyn lle sy'n cael ei gynnig i mi?

Byddwch. Cewch hyd i amodau'r rhaglen yn y Cytundeb Dysgwr. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno copi wedi'i lofnodi o'r Cytundeb Dysgwr gyda'u cais.

Bydd gofyn i chi a'ch cyflogwr gwblhau a dychwelyd y Cytundeb Dysgwr gyda'ch ffurflen gais. Bydd hyn yn cadarnhau eich bod yn derbyn yr amodau.

## A yw'r dyddiadau yn hyblyg?

Na – Bydd dyddiadau cyflwyno'r cwrs yn cael eu pennu a'u trefnu yn unol ag amserlen CIPS.

# Costau a chyllid

## Faint fydd yn ei gostio?

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ariannu costau'r rhaglen yn llawn. Mae hyn yn cynnwys eich ffioedd aelodaeth. Rhaid i ymgeiswyr adolygu amodau lleoedd a ariennir. Gellir dod o hyd iddynt yn y Cytundeb Dysgwr.

## A fydd yn rhaid i mi dalu fy ffioedd aelodaeth CIPS fy hun?

Na, mae eich ffioedd dysgu yn cynnwys costau aelodaeth. Os byddwch yn gohirio eich astudiaethau, bydd gofyn i chi dalu eich ffioedd aelodaeth eich hun wrth ailymuno â'r rhaglen.

## Yn flaenorol, mewn achos o dynnu'n ôl, fy nghyfrifoldeb i oedd talu'r ffioedd. Pam mae hyn wedi newid i fod yn gyfrifoldeb y cyflogwr?

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth i'n galluogi i adennill unrhyw golledion ac rydym yn dibynnu arnoch i fod yn onest a rhannu gwybodaeth am eich statws cyflogaeth. Eich cyflogwr fydd yn y sefyllfa orau i reoli'r wybodaeth hon gyda ni a chytuno ar gynllun ad-dalu gyda chi, os oes angen. Cewch hyd i delerau ad-dalu yn y Cytundeb Dysgwr.

## Pwy sy'n gyfrifol am dalu fy ffioedd os ydw i'n tynnu'n ôl, yn peidio â chwblhau'r cwrs (am amgylchiadau amrywiol) neu os byddaf yn rhoi'r gorau i weithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru?

Bydd eich cyflogwr yn gyfrifol am ad-dalu'ch ffioedd os ydych yn tynnu'n ôl yn unol â'r amodau yn y Cytundeb Dysgwr. Fodd bynnag, efallai y bydd eich cyflogwr yn gofyn i chi ad-dalu'r costau hyn os yw'n briodol.

# Strwythur y rhaglen a sut y bydd yn cael ei chyflwyno

## Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn ymuno â'r rhaglen?

Pan fo sawl carfan, bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu myfyrwyr yn grwpiau carfan i sicrhau lledaeniad daearyddol a sectorol teg. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r rhestr o fyfyrwyr i CIPS a fydd wedyn yn rheoli'r broses gynefino gan gysylltu'n uniongyrchol â phob myfyriwr o'r pwynt y mae'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Bydd y cyfnod cynefino yn dod i ben pan fydd CIPS yn anfon pecyn croeso i chi ac yn cadarnhau eich amserlen a'ch rhif aelodaeth. Bydd telerau'r Cytundeb Dysgwr yn dod yn berthnasol ar ôl y cyfnod cynefino.  Byddant hefyd yn gwahodd myfyrwyr i sesiwn cynefino a gynhelir cyn y dysgu yn yr ystafell ddosbarth

## Ble bydd y modiwlau yn cael eu cyflwyno ac a oes modd gwneud y cyrsiau ar-lein?

Oes, bydd ystafelloedd dosbarth rhithwir yn cael eu cynnal trwy Microsoft Teams.

## A oes arholiadau?

Na. Rhaglen sy'n seiliedig ar aseiniadau yn unig yw hon.

## Beth yw'r disgwyliadau arnaf o ran yr ymrwymiadau astudio a faint o amser sydd angen i mi ymrwymo i gwblhau'r cwrs hwn?

Mae CIPS wedi cyhoeddi gweminar wedi'i recordio ymlaen llawn ar YouTube. Mae'n amlinellu'r hyn a ddisgwylir gennych chi fel myfyriwr wrth ymrwymo i'r rhaglen ddysgu.  Gallwch wylio gweminar CIPS yma. Mae Atodiad 1 yn nodi'r oriau dysgu dan arweiniad amcangyfrifedig dros gyfnod y cwrs. Sylwch fod maes llafur y modiwl ymarferydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a gallai hyn effeithio ychydig ar hyd y rhaglen.

# Gohirio, tynnu'n ôl a rhoi'r gorau i astudio

## Ydw i'n gallu gohirio fy lle ar y rhaglen?

Gallwch ohirio'ch lle am hyd at 12 mis trwy gyflwyno ffurflen ohirio i CIPS a'r blwch post Gallu Masnachol, gan gynnwys dyddiad ailymuno arfaethedig. Eich cyflogwr fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau ychwanegol a achosir gan ohirio, ac mae ceisiadau yn cael eu hystyried yn seiliedig ar yr amgylchiadau esgusodol a roddir yn y ffurflen.

## Beth os byddaf yn methu?

Os na fyddwch yn cyflawni'r marc pasio lleiaf ar ôl tri ailgyflwyniad, byddwch yn methu'r modiwl. Bydd modd i chi ailsefyll y modiwl ar draul eich cyflogwr (oddeutu £995 + TAW), gan na fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu ailsefyll modiwlau.

## Beth os ydw i'n dechrau'r rhaglen ac yna fod angen i mi roi'r gorau i astudio?

Gall myfyrwyr roi'r gorau i'w hastudiaethau o dan amodau penodol. Mae'r Cytundeb Dysgwr yn nodi'r amodau ar gyfer rhoi'r gorau i astudio ac ad-dalu ffioedd.

## Beth yw'r dyddiad olaf y gallaf dynnu'n ôl o'r rhaglen os bydd fy amgylchiadau'n newid?

Caniateir tynnu'n ôl tan y cam cynefino pan fydd CIPS yn sefydlu aelodaeth myfyrwyr. Ar ôl y pwynt hwn, mae cyllid yn cael ei golli ac ni ellir ei adennill gan CIPS. Os ydych yn tynnu'n ôl, bydd gofyn i'ch rheolwr llinell gadarnhau eich amgylchiadau esgusodol. Efallai y bydd angen i'ch sefydliad dalu rhai o gostau'r rhaglen, neu'r holl gostau. Bydd rhaid i ddeiliaid y gyllideb dderbyn hyn trwy lofnodi'r Cytundeb Dysgwr a'r ffurflen gais. Byddwn yn olrhain pawb sydd yn tynnu'n ôl, ac yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth Caffael Masnachol amdanynt.

# Oriau dysgu dan arweiniad

## Atodiad 1 – Oriau Dysgu dan Arweiniad – Rhaglen Ymarferydd

| **Ymarferydd** | |
|---|---|
| Cynefino | 3 awr |
| 5 x Modiwlau Hyfforddi 2 Ddiwrnod | 80 awr |
| 3 Asesiad Normadol (argymhellir hunan-astudio am 40 awr fesul modiwl dros gyfnod o 4 wythnos) | 120 awr |
| Asesiad Integreiddiol (Argymhellir o leiaf 80 awr o hunan-astudio) | 80 awr |
| **Cyfanswm y lefel Ymarferydd** | **283** |

**Nodyn:**
Rydym wedi cyfrifo y bydd y Digwyddiad Cynefino yn ddigwyddiad 3 awr a gyflwynir trwy weminar. Os yw'r digwyddiad cynefino yn cael ei gyflwyno fel digwyddiad wyneb yn wyneb 1 diwrnod, yna bydd yr oriau dysgu dan arweiniad (GLH) yn cael eu hystyried yn 8 awr, nid 3.

Mae'r amser hunan-astudio wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar 2 awr y dydd dros gyfnod o 4 wythnos i ddatblygu aseiniad ar gyfer pob papur.

Mae'r diwrnod hyfforddi yn seiliedig ar ddiwrnod hyfforddi arferol 8 awr.

**Prawf Moeseg:**
Os yw myfyriwr yn cymryd y Prawf Moeseg, dylid ychwanegu 4 awr ychwanegol at y cyfanswm.

## Oriau Dysgu dan Arweiniad Ymarferydd Uwch Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol CIPS.

| **Ymarferydd Uwch** | |
|---|---|
| Cynefino | 3 awr |
| 10 x Diwrnod Modiwlau Hyfforddi | 80 awr |
| Gweithdai | 80 awr |
| 4 Asesiad Normadol Modiwl Unigol (o leiaf 40 awr o hunan-astudio fesul modiwl) | 160hrs |
| 1 Asesiad Normadol Modiwl Dwbl (argymhellir 80 awr o hunan-astudio) | 80 awr |
| 3 x Sesiwn Brosiect | 3 awr |
| Prosiect ymchwil | 120 awr |

| Cyfanswm Lefel Ymarferydd Uwch | 526 awr |
|---|---|

**Nodyn:**

Rydym wedi cyfrifo y bydd y Digwyddiad Cynefino yn ddigwyddiad 3 awr a gyflwynir trwy weminar. Os yw'r digwyddiad cynefino yn cael ei gyflwyno fel digwyddiad wyneb yn wyneb 1 diwrnod, yna bydd yr oriau dysgu dan arweiniad (GLH) yn cael eu hystyried yn 8 awr, nid 3.

Mae'r amser hunan-astudio wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar 2 awr y dydd dros gyfnod o 4 wythnos i ddatblygu aseiniad ar gyfer pob papur.

Mae'r diwrnod hyfforddi yn seiliedig ar ddiwrnod hyfforddi arferol 8 awr.

**Prawf Moeseg:**
Os yw myfyriwr yn cymryd y Prawf Moeseg, dylid ychwanegu 4 awr ychwanegol at y cyfanswm.